**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/00148/18

Y Cynghorydd Annwen Daniels
Chairman of the Council / Cadeirydd y Cyngor
Gwynedd Council
Shirehall Street
Caernarfon
Gwynedd
LL551SH

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

13 Chwefror 2018

Annwyl Gynghorydd Daniels,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 25 Ionawr, ynghylch addysgu Hanes Cymru, ac argaeledd adnoddau dwyieithog ategol.

Mae gan Gymru dreftadaeth a diwylliant cyfoethog, a chred Llywodraeth Cymru ei bod yn hanfodol i ddisgyblion Cymru gael cyfle i ddysgu am hanes ein gwlad. O'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, anogir athrawon ac ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Mae hyn yn eu galluogi i werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd a'r gwahanol agweddau diwylliannol sy'n rhan o Gymru heddiw. Mae hefyd yn rhoi iddynt ymdeimlad o berthyn i Gymru, a dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'n treftadaeth, ein llenyddiaeth a'n celfyddydau.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, mae Hanes Cymru'n rhan bwysig o'r rhaglen astudio ar gyfer Hanes, ac anogir ysgolion i ganolbwyntio ar gyd-destunau lleol a Chymreig, gyda phwyslais ar fywydau beunyddiol pobl. Yn benodol, yng Nghyfnod Allweddol 2, mae cyfle i astudio Owain Glyndŵr ac Oes y Tywysogion. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi adnoddau ar y platfform dysgu ar-lein cenedlaethol, Hwb, sy'n llawn cyngor a chymorth i ysgolion mewn perthynas â'r pwnc.

Mae'r cymhwyster Safon Uwch/UG, y dechreuwyd addysgu ar ei gyfer o fis Medi 2015 ymlaen, a'r TGAU newydd a gyflwynwyd fis Medi diwethaf, yn gofyn i ddysgwyr ystyried y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

persbectif Cymreig. Mae'r TGAU newydd yn gwneud i ymgeiswyr gyfeirio at effaith newid hanesyddol ar Gymru neu'r persbectif Cymreig.

Yn ystod Safon Uwch/UG, rhoddir cyfleoedd, lle bo hynny'n berthnasol, i ddysgwyr ystyried y persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n codi'n naturiol o'r pwnc ac os bydd gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd. Hefyd, rhoddir mynediad i ddysgwyr at ddeunyddiau ffynhonnell wreiddiol a dehongliadau hanesyddol sy'n adlewyrchu'r persbectif Cymreig, lle bo hynny'n briodol.

Fel y sonioch chi yn eich llythyr, mae cwricwlwm newydd wrthi'n cael ei ddatblygu yma yng Nghymru, yn sgil cyhoeddi'r adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'. Yn ei adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, ystyriodd yr Athro Donaldson ystod o dystiolaeth, gan gynnwys adroddiad terfynol Grŵp Adolygu 'Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru'. Mae adroddiad y grŵp ar gael yma:
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/the-cwricwlwm-cymreig-final-report/?lang=cy


Yn y Cwricwlwm newydd, bydd Hanes yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bydd y cwricwlwm newydd yn sicrhau bod y dimensiwn Cymreig ynghlwm wrth bob agwedd ar ddysgu, lle bo hynny'n briodol, ynghyd â safbwynt rhyngwladol yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru. Mae pedwar diben allweddol wrth galon y cwricwlwm newydd. Un diben yw y bydd plant a phobl ifanc yn ddinasyddion moesegol a gwybodus o Gymru a'r byd, gan wybod am ddiwylliant, cymunedau, a hanes Cymru a'i lle yn y byd ehangach.

Mae Grŵp y Dyniaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ysgolion arloesi o bob cwr o Gymru sydd ag arbenigedd mewn pynciau, wrthi'n datblygu set o ddatganiadau 'Beth sy'n Bwysig', ynghyd â sail resymegol. Mae'r grŵp, yn ystod y gwaith hwn, wedi ystyried nifer o adroddiadau a chyfraniadau gan arbenigwyr. Mae'r adroddiad diweddaraf ar waith pob grŵp yma: https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drin Cymraeg a Saesneg yn gydradd. Yn 'Cenhadaeth Ein Cenedl', ymrwymwn i sicrhau y caiff yr adnoddau yr ydym yn eu comisiynu eu datblygu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd i gefnogi'n cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cynnwys adnoddau Hwb, sydd oll ar gael yn ddwyieithog.

Gobeithio bod hyn yn eich argyhoeddi ein bod yn ymrwymedig i bwysigrwydd Hanes Cymru i'r cwricwlwm.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education